Llenyddiaeth Cymru Literature Wales




# Cydlynydd Cyfathrebu

Llawn amser, cytundeb cyfnod penodol (37 awr yr wythnos am 12 mis)

I gychwyn cyn gynted â phosib

**Cyflog:** £25,000 pro rata

**Lleoliad:** Mae ein swyddfeydd yn Llanystumdwy a Chaerdydd.
Mae'r swydd yn gweithio o adref ar hyn o bryd a bydd pob cais am hyblygrwydd lleoliad yn cael ei ystyried.

**Dyddiad Cau:** 29 Ebrill 2022 **Cyfweliadau:** 10-11 Mai 2022

---

## Llenyddiaeth Cymru - Amdanom ni

Llenyddiaeth Cymru yw'r cwmni cenedlaethol gyda chyfrifoldeb dros ddatblygu llenyddiaeth. Ein gweledigaeth yw Cymru sydd yn grymuso, yn gwella ac yn cyfoethogi bywydau drwy lenyddiaeth. Rydym yn gweithio i **ysbrydoli cymunedau**, **datblygu awduron**, a **dathlu diwylliant llenyddol Cymru**. Rydym yn gweithio mewn partneriaeth ag ystod o sefydliadau ledled Cymru a thu hwnt i gyflawni ein

uchelgais dros wireddu sector mwy cyfartal. Ar sail ein dealltwriaeth fod gan lenyddiaeth y grym i wella a thrawsnewid bywydau, mae ein blaenoriaethau yn themâu sy'n llifo drwy bob agwedd o'n gwaith, sef **Cynrychiolaeth a Chydraddoldeb**, **Iechyd a Llesiant**, a'r **Argyfwng Hinsawdd**.

Rydym yn **aelod o Bortffolio Celfyddydau Cymru** ag yn un o wyth **Cwmni Cenedlaethol**.

Rydym yn dîm cyfeillgar a chreadigol sydd yn gweithio yn agos â'n gilydd drwy'r Gymraeg, Saesneg ac yn ddwyieithog ledled Cymru. Mae ein swyddfeydd wedi'u lleoli yn Llanystumdwy a Chaerdydd, ond rydym yn gweithio yn achlysurol o adref a byddwn yn darparu'r offer angenrheidiol i chi, gan gynnwys gliniadur.

---

## Am y Rôl

Mae hon yn rôl gyffrous a chreadigol lle byddwch cefnogi **datblygiad brand Llenyddiaeth Cymru** ac yn ein helpu i adrodd ein stori. Byddwch yn helpu i weithredu ein Strategaeth Gyfathrebu, sy'n cynnwys llawer o ddisgyblaethau amrywiol, gan gynnwys **marchnata, hyrwyddo digidol, a chysylltiadau cyhoeddus**.

Byddwch yn gyfrifol am sicrhau bod negeseuon Llenyddiaeth Cymru yn gyson ac yn atyniadol. Mae'r prif gyfrifoldebau'n cynnwys hyrwyddo ein cyfleoedd a'n gwasanaethau, rhannu ein negeseuon cyfathrebu allweddol, a rhannu **effaith** ein gwaith. Bydd hyn yn golygu creu a lledaenu cynnwys cyffrous ar gyfer ein sianelau digidol, blaengynllunio gweithgareddau cyfathrebu, datblygu cynulleidfaoedd, ysgrifennu copi a golygu, a dadansoddi llwyddiannau ein gweithgareddau cyfathrebu.

Gan weithio mewn tîm bach a deinamig, byddwch yn cyfrannu at wella gweledigaeth o gylch gwaith ac effaith Llenyddiaeth Cymru, codi gwerthiannau cyrsiau ysgrifennu Tŷ Newydd, a chynyddu nifer ein cleientiaid.

---

## Bydd y Cydlynydd Cyfathrebu yn:

- Cynorthwyo'r Arweinydd Cyfathrebu Dros Dro i weithredu Strategaeth Gyfathrebu'r sefydliad, yn benodol i flaengynllunio cynnwys digidol.
- Cynorthwyo cydweithwyr i hyrwyddo eu gwasanaethau, cyfleoedd a phrosiectau drwy eu helpu i greu a gweithredu cynlluniau marchnata neu hyrwyddo.
- Gweithredu ein strategaeth cyfryngau cymdeithasol, sy'n cynnwys ysgrifennu negeseuon, rheoli cynnwys, a dadansoddi ymgyrchoedd ar ein prif lwyfannau, Twitter, Facebook ac Instagram.
- Arwain ar farchnata cyrsiau ysgrifennu creadigol Tŷ Newydd, datblygu ein cynulleidfa sylfaenol, cynhyrchu gwerthiannau a chynnal - cyfeiriadur marchnata Tŷ Newydd.
- Rheoli ein gwefannau, creu a diweddaru cynnwys i sicrhau bod pob gwefan yn gyfredol, yn gywir ac yn ddefnyddiol i'n cynulleidfaoedd.

- Ysgrifennu a dylunio cylchlythyrau ar gyfer cynulleidfaoedd allanol a mewnol.
- Creu cynnwys digidol sy'n cynnwys fideos, taflenni, hysbysebion ac asedau cyfryngau cymdeithasol.
- Cyfathrebu effaith ein sefydliad trwy greu astudiaethau achos, ysgrifennu blogiau a dylunio infographics.
- Rheoli a gwerthuso ein llyfrgell cyfryngau sefydliadol, sy'n cynnwys cadw cofnod o sylw yn y wasg a'r cyfryngau yn ogystal â'n hystadegau ymgysylltu digidol, a rhannu eich dadansoddiadau gyda'r Tîm Cyfathrebu.
- Ateb ymholiadau am ein Rhestr Awduron Cymru, a helpu ei ddatblygu.
- Helpu i weithredu Cronfa Ysbrydoli Cymunedau, ein cynllun nawdd ar gyfer digwyddiadau.
- Ysgrifennu, prawf ddarllen a chyfieithu copi.
- Cynorthwyo gyda hyrwyddo prosiectau allweddol, gan gynnwys Gwobr Llyfr y Flwyddyn.
- Unrhyw dasgau eraill yn ôl angen y sefydliad.

Yn atebol i:

- Arweinydd Cyfathrebu

---

Diwrnod ym mywyd y Cydlynydd Cyfathrebu

Yn ystod eich diwrnod gwaith byddwch yn aml-dasgio ar amrywiaeth o weithgareddau, gan ddefnyddio eich creadigrwydd i chwarae rhan bwysig mewn adrodd stori Llenyddiaeth Cymru. Mae hon yn rôl amrywiol a phrysur, sy'n cynnig cydbwysedd rhwng cynllunio negeseuon yn fanwl ac ymateb yn gyflym i geisiadau a chyfleoedd annisgwyl.

Fel aelod o'r Tîm Cyfathrebu, byddwch yn gweithio'n agos gyda chydweithwyr ar draws y sefydliad, boed yn ein swyddfeydd yn Nhŷ Newydd, Llanystumdwy neu Ganolfan Glyn Jones, Caerdydd. Byddwch yn cydweithio i ddatblygu cynlluniau ar gyfer marchnata a hyrwyddo. Byddwch hefyd yn trafod ffyrdd o ddathlu effaith ein gwaith ar unigolion a chymunedau.

Byddwch yn canolbwyntio'n benodol ar ysgrifennu a chreu cynnwys ar gyfer ein llwyfannau cyfryngau cymdeithasol a'n gwefannau. Byddwch yn defnyddio offer dylunio fel Canva a Photoshop a byddwch yn dod yn gyfarwydd â WordPress, Mailchimp a rhaglenni amserlennu fel Tweetdeck a Facebook Business.

Byddwch yn gweithio'n agos gyda chydweithwyr sy'n rhaglennu ac yn rhedeg cyrsiau ysgrifennu creadigol yn Nhŷ Newydd. Byddwch yn gweithio ar ffyrdd o gynyddu gwerthiant ac ymestyn cyrhaeddiad y gwasanaethau a'r cyfleoedd a gynigir yn y ganolfan. Gallai hyn gynnwys gosod hysbysebion mewn cylchgronau, gofyn am dystebau, a chynnig cyfleoedd marchnata cyfatebol ar ein cyfryngau cymdeithasol i nifer o sefydliadau.

Ar adegau penodol yn ystod y flwyddyn, byddwch yn cynnig cymorth cyfathrebu dwys i'ch cydweithwyr ac yn bwydo syniadau creadigol mewn i rai o brosiectau blaenllaw Llenyddiaeth Cymru, gan gynnwys Gwobr Llyfr y Flwyddyn, menter Bardd Cenedlaethol Cymru, a rhaglen datblygu proffesiynol Cynrychioli Cymru.

Ar rai dyddiau, byddwch yn canolbwyntio ar dasgau gweinyddol a gweithredol fel casglu a dadansoddi data o Google a'n cyfryngau cymdeithasol, diweddaru cynnwys ar ein gwefannau, prawf ddarllen a chyfieithu. Byddwch yn aml yn ymwneud â rhanddeiliaid y tu allan i'r sefydliad, gan ateb ymholiadau a godir drwy e-bost neu dros gyfryngau cymdeithasol.

Byddwch yn ymuno'n rheolaidd â chyfarfodydd – rhai yn rhithwir a rhai mewn person – lle byddwch yn cyfrannu at ein datblygiad strategol ehangach ac yn chynllunio prosiectau gyda chydweithwyr ar draws y sefydliad.

---

Addasrwydd ar gyfer y rôl

Rydym yn chwilio am rywun sydd:

- Â'r gallu i aml-dasgio, i weithio yn dda dan bwysau, ac i flaenoriaethu dyletswyddau.
- Â phrofiad a dealltwriaeth o ddisgyblaethau cyfathrebu a marchnata
- Â phrofiad o rheoli cyfryngau cymdeithasol sefydliadol, yn enwedig Twitter, Facebook, ac Instagram
- Â phrofiad o ysgrifennu copi a phrawf ddarllen
- Â sgiliau cyfathrebu cryf, sensitif, a phositif yn y Gymraeg a'r Saesneg. Mae hyn yn berthnasol i gyfathrebu ysgrifenedig a llafar.
- Yn drefnus iawn ac yn gallu rheoli amser a blaenoriaethu tasgau.
- Â diddordeb mewn llenyddiaeth ac yng ngrym y celfyddydau i ymdrin â materion cyfiawnder cymdeithasol.

Mae profiad o'r canlynol yn ddymunol:

- Dylunio graffig
- Creu a golygu fideo ar gyfer cyfryngau cymdeithasol
- Datblygu cynulleidfaoedd, gan gynnwys ond ddim yn gyfyngedig i ddatblygu rhestrau marchnata
- Rheoli prosiectau

Rydym yn benodol am annog ceisiadau gan unigolion sy'n uniaethu ag un neu fwy o'r datganiadau canlynol:

- Rwy'n dod o gefndir Du, Asiaidd neu Leiafrif ethnig.
- Rwy'n anabl neu yn dioddef o salwch hir dymor (meddyliol neu gorfforol).
- Rwy'n dod o gefndir incwm isel.

Bydd ymgeiswyr sydd yn uniaethu gydag un neu fwy o'r datganiadau hyn, ac yn ateb gofynion y swydd, yn sicr o derbyn cyfweliad ar gyfer y swydd hon. Rydym yn angerddol am fynd i'r afael gydag anghydraddoldebau a thangynrychiolaeth yn y celfyddydau a byddwn yn blaenoriaethu profiad byw uwchlaw profiad gwaith.

Mae Llenyddiaeth Cymru yn cydnabod ein dyletswydd i ddiogelu plant ac oedolion sy'n wynebu risg o niwed wrth iddynt fynychu neu gymryd rhan yn y celfyddydau llenyddol. O'r herwydd, mae apwyntiadau staff Llenyddiaeth Cymru yn ddibynnol ar gyflawni gwiriad DBS o lefel sydd yn addas i'r rôl. Mae Llenyddiaeth Cymru yn cadw'r hawl i ddiddymu cyflogaeth ac i ddiddymu'r cynnig o swydd pe bydd canlyniad gwiriad DBS yn peryglu diogelwch plant ac oedolion sy'n wynebu risg o niwed. Yn unol â Deddf Adsefydlu Troseddwyr 1974 a'n polisi cyflogaeth cynhwysol, rhowch wybod i ni os hoffech chi drafod hyn â ni o flaen llaw.

---

## Ein polisi recriwtio

Mae Llenyddiaeth Cymru yn sefydliad cynhwysol sydd wedi ymrwymo i groesawu ymgeiswyr o ystod eang o gefndiroedd. Rydym yn asesu ceisiadau ar sail cryfder potensial, a byddwn yn gweithredu'n gadarnhaol drwy warantu cyfweliad i bob ymgeisydd sy'n dangos eu bod yn cwrdd â'n gofynion addasrwydd ac yn uniaethu fel rhywun sy'n cael eu tangynrychioli yn y sector lenyddol. Ein bwriad yw datblygu llenyddiaeth fel celfyddyd sydd yn cynrychioli pawb, ac yn hygyrch i bawb yng Nghymru. Rydym yn credu mai un o'r dulliau gorau i wireddu'r amcan honno yw drwy gael gweithlu amrywiol ag amrediad gwahanol o brofiadau bywyd.

Am wybodaeth bellach darllenwch ein Cynllun Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant, 2020-23. Os hoffech ymgeisio am y rôl hon, ond yn ansicr os oes profiad digonol gennych, cysylltwch â ni am sgwrs anffurfiol.

Mae ein fframwaith recriwtio wedi ei ddatblygu fel rhan o raglen Weston Jerwood Creative Bursaries sy'n cefnogi mudiadau celfyddydol yn eu hymdrechion i ehangu eu hagwedd tuag at recriwtio a datblygu talent amrywiol.

---

## Sut i wneud cais

1. **Darllenwch** y **swydd ddisgrifiad** a'r rhestr **addasrwydd** uchod yn ofalus. Hefyd, darllenwch Gynllun Strategol Llenyddiaeth Cymru 2019-2022 (ar gael yma) ac Adroddiad Canol Tymor 2019-2022 (ar gael yma).

2. **Ysgrifennwch lythyr cais neu crëwch gais fideo*** i egluro **pam** fod gennych ddiddordeb yn y rôl a sut rydych chi'n addas ar ei chyfer (e.e. dywedwch wrthym am eich profiad a beth sydd o ddiddordeb i chi am elfennau penodol o'r rôl). Mae'r ddau fformat yn dderbyniol ac o werth cyfartal.

   * Uchafswm o 2 dudalen A4 neu fideo 5 munud o hyd.

3. Anfonwch y canlynol at post@llenyddiaethcymru.org erbyn **29 Ebrill 2022:**

   - Eich llythyr neu cais fideo;
   - **Eich CV** a manylion dau ganolwr** sy'n eich adnabod mewn cyd-destun proffesiynol. Byddwn ond yn cysylltu â chanolwyr ar ôl i gynnig o gyflogaeth gael ei dderbyn;
   - Ffurflen Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Llenyddiaeth Cymru wedi ei chwblhau (ar gael yma).

   ** Uchafswm o 2 dudalen A4.

---

## Beth fydd yn digwydd wedyn?

Byddwn yn asesu'r ceisiadau, ac yn gwahodd ymgeiswyr llwyddiannus am gyfweliad digidol ar **unai 10 neu 11 Mai.** Bydd tri pherson ar y panel cyfweld yn cynrychioli tîm Llenyddiaeth Cymru.

Er yn gyfweliad ffurfiol, byddwn yn ceisio sicrhau fod pob ymgeisydd yn gyffyrddus â'r broses gyfweld. Os yw'r broses yn peri pryder i chi, gadewch i ni wybod o flaen llaw, a gallwn drefnu sgwrs ffôn neu alwad fideo anffurfiol gyda Branwen Llewelyn, Arweinydd Cyfathrebu (Dros Dro), cyn y cyfweliad.

Mae croeso i chi gysylltu â ni i drafod y rôl yn anffurfiol, neu i ofyn am ragor o wybodaeth. I siarad gyda Branwen Llewellyn yn uniongyrchol, neu i drefnu galwad ffôn, e-bostiwch branwen@llenyddiaethcymru.org.

Byddwn yn cysylltu â'r ymgeiswyr oll â chanlyniad y cyfweliadau erbyn 18 Mai 2022.

---

*Mae Llenyddiaeth Cymru yn elusen gofrestredig ac mae'n gweithio gyda chefnogaeth Cyngor Celfyddydau Cymru a Llywodraeth Cymru.*